# DINESYDD

**CHWEFROR**

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1985

RHIF 113

# PWY A SAIF YN Y BWLCH?

YN DILYN MARWOLAETH sydyn yr Arglwydd Harlech, mae eisoes cryn ddyfalu yn yn y byd darlledu Cymraeg ynglŷn â'i olynydd yng nghadair HTV.

Bu'r Arglwydd, a fu farw o ganlyniad i ddamwain car ar yr A5 rhwng Croesoswallt a'r Amwythig, ar nos Wener Ionawr 25, yn gadeirydd HTV ers i'r cwmni wneud cais am y hawl i ddarlledu ym mis Ebrill 1967.

Fe'i wahoddwyd i ymuno â'r cwmni newydd gan John Morgan a Wynford Vaughan Thomas, a oedd yn chwilio am arweinydd mewn enw i hybu statws y consortiwm. Ond cymerodd y swydd o ddifrif, ac roedd ganddo gryn afael ar weithgareddau HTV. Mwy hyd yn oed nag a wyddai rhai o uchel swyddogion cyflogedig y cwmni.

Yn sgil ei brofiad yn San Steffan - lle bu'n cynrychioli Croesoswallt rhwng 1950 i 1961 - ac fel llysgennad Prydain yn yr Unol Daleithiau, roedd yn wleidydd hynod alluog. Ac er ond yn rhan fechan o'i ddiddordebau, ymdopodd â'i waith gydag HTV yn rhwydd.

Roedd ganddo fanteision amlwg. Fel Cymro oedd hefyd yn ffigwr adnabyddus yn y sefydliad Prydeinig, roedd ganddo apêl i'r naill ochr a'r llall o fwrdd gyfarwyddwyr HTV. Hyn yn fwy na dim efallai sy'n gwneud y dasg o bennodi olynydd iddo yn anodd.

Does neb ar fwrdd y Cwmni, yng Nghymru neu yng Ngorllewin Lloegr, ers ymddeoliad Syr Alun Talfan Davies, sy'n meddu ar gymwysterau unigryw'r Arglwydd Harlech. Ac er ei fod yn hysbys fod gan Ron Wordley, Rheolwr-Gyfarwyddwr HTV, ddiddordeb yn y swydd, ni ddisgwylir iddo ennill cefnogaeth ei gyd-gyfarwyddwyr. Syndod hefyd fyddai i aelod arall o fwrdd presennol y cwmni gael ei ddyrchafu i'r gadair.

Y tebygrwydd felly yw y bydd y cwmni yn chwilio am rywun o'r tu allan. Yr unig enw a grybwyllwyd hyd yma yw'r Arglwydd Snowdon, a allai, mae'n amlwg, apelio at y naill ochr a'r llall o'r bwrdd, fel a wnaeth yr Arglwydd Harlech.

Ateb mwy radical o lawer i broblem yr olyniaeth yw'r awgrym diweddar i wahannu dwy ochr HTV yn llwyr a chreu uned fasnachol hunan-gynhaliol yng Nghymru. Dyw'r syniad ddim yn un newydd, ond efallai fod yr amodau ar gyfer newid o'r fath yn addas.

Un peth sy'n sicr, mae'r penderfyniad a wneir yn un hanfodol bwysig i ddyfodol HTV a theledu masnachol yng Nghymru.




# Dim Pumed Ysgol

NI SEFYDLIR pumed ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd ym mis Medi. Ond ceir cynnydd yn y nifer o blant fydd yn cael mynediad i ysgolion Cymraeg De Morgannwg. Dyna a gadarnhawyd gan Bwyllgor Addysg y Sir yn eu cyfarfod ar Ionawr 29, pan dderbyniwyd adroddiad o'r Pwyllgor Polisi Addyg ar ddarpariaeth adddysg Gymraeg.

Tra'n cydnabod y galw cynyddol am addysg Gymraeg, dywed yr awdurdod nad oes yna alw digonol i gyfiawnhau sefydlu ysgol newydd eto. Addewir ystyried y mater o'r newydd ymhen blwyddyn.

Yn y cyfamser, chwyddir y ffrwd mynediad yn Ysgol Bro Eirwg o 30 i 45 o blant, a chaniateir mynediad i 36 o blant i Ysgol Coed-y-Gof. Ceir cynnydd hefyd yn Ysgol Sant Ffransis, Y Barri, a chreir dosbarth newydd ym Mhenarth gyda 40 o lefydd ychwanegol.

Pan gyflwynwyd yr adroddiad gyntaf i'r Pwyllgor Polisi, dywedodd Cyfarwyddwr Addysg De Morgannwg, Lyn Cule, bod addysg Gymraeg yn cychwyn ar gyfnod newydd a bod i'r galw cynyddol oblygiadau anferth i'r gyfundrefn addysg yn y Sir.

Ond goblygiadau yw'r rhain a wynebir gan yr awdurdod newydd a ddaw i rym ym mis Mai wedi etholiadau'r cynghorau sir. Afrealistig yw disgwyl penderfyniadau mawr mewn blwyddyn etholiad, pan nad oes yr un cynghorydd am fentro'n ormodol.

Bydd yn rhaid aros tan ar ol yr etholiad hefyd i wybod beth fydd tynged Glantaf. Gohiriwyd y cynlluniau ar gyfer adeiladu bloc chweched dosbarth newydd oherwydd diffyg arian ond os ydy'r cynydd yn y nifer o blant sy'n derbyn addysg gynradd yn parhau, yna bydd angen ysgol newydd yn hytrach nag adeilad newydd.

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Mawrth at: Shan Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn Chwefror 14.

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: Lynn Jones Ffon: 562816

## LLYTHYRAU

Adran Meddygaeth Arennol
Yr Ysbyty Frenhinol
Caerdydd

Annwyl Dinesydd,
Gaf i drwy eich colofnau atgoffa pob meddyg a myfyriwr meddygol fod Y Gymdeithas Feddygol yn cyfarfod yng Nghaerdydd ar ôl y Pasg? Cynhelir y gynhadledd yng Ngwesty'r Parc ar Ebrill 13-14. Bydd croeso cynnes i aelodau newydd.
Os am fwy o fanylion cysylltwch â'r Dr.Hywel Morris, Ysgrifennydd, Y Gymdeithas Feddygol, 19 Y Sgwâr, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd neu finnau.
Yn ddiffuant,
Dr.G.A.Coles.

BBC
Llandaf
Caerdydd

Annwyl Olygydd,
Tybed a gawn drwy golofnau'r Dinesydd ofyn am eich cymorth i dynnu sylw eich darlenwyr i gyfres newydd BBC Cymru o'r cwis chwaraeon teledu "Penigamp"?
Patrwm y gyfres yw fod angen dau aelod o glwb chwaraeon (pa bynnag gamp) i ddod i'r stiwdio yng Nghaerdydd i gystadlu yn erbyn timoedd eraill. Bydd gwr amlwg o fyd chwaraeon yn gapten ar y tim ac os bydd y tim hwnnw'n llwyddiannus yna fe fydd yn symud mlaen i'r rownd nesaf.
Fe fydd y gyfres yn cael ei recordio ym mis Mehefin a dechrau mis Gorffennaf ac os bydd diddordeb gan unrhyw glwb chwaraeon i gymryd rhan yna fe fyddwn yn dra diolchgar pe baent yn cysylltu â ni yn yr Adran Chwaraeon,BBC,Llandaf,Caerdydd.
Diolch yn fawr am eich cymorth
Yn gywir
Geraint Evans (Cynhyrchydd)

---

MAE BWRDD Golygyddol y Dinesydd yn cadw'r hawl i dalfyrru unrhyw erthyglau neu lythyrau sy'n cael eu cyhoeddi yn y papur.

YN EISIAU:
LLETY I GYMRAES BROFFESIYNOL
Bodlon rhannu tŷ yn un o 3 neu 4 merch mor agos i ardal Canton ag sy'n bosibl.
FFoniwch 627940 ar ôl 4.00.

DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.



# Y CALENDR

1 - CYMRODORION CAERDYDD
Festri Ebenezer, 7.15.
"Tomos Charles a'r Ysgol Sul" gan A.H.Williams.

2 - CLWB IFOR BACH
Mynediad am Ddim.

9 - EISTEDDFOD YR URDD '85
Cymuned Y Waun
Ysgol Glantaf
Noson Werin yng nghwmni'r Hwntws, Elin ac Eleri ynghyd â Thwmpas Dawns.
Am fanylion pellach ffoniwch 619159 neu 753625.

9 - CERDDORFA SIAMBR CAERDYDD
Eglwys y Drindod, Ffordd Casnewydd. 7.30.
Arweinydd: Michael Bell
Unawdydd: Steven Watts
Gweithiau gan Arnold, Hummel, Mozart a Mendelssohn.

9 - PLAID CYMRU
Clwb Ifor Bach 10.15 - 5.00
Ysgol Sadwrn

10 - CAPEL DERWEN DEG
Oedfa Anenwadol 4.00
Parch.Eifion Powell.

10 - Y TWR TRAFOLI
Clwb Ifor Bach, 8.30.

11 - MERCHED Y WAWR
Festri Minny St. 7.30.
Yoga - Valmai Evans.

11 - CANMLWYDDIANT MINNY STREET
Te i chwiorydd eglwysi Cymraeg y ddinas. 3.00

11 - Y GYMDEITHAS WYDDONOL
Clwb Ifor Bach

13 - CYMDEITHAS Y DYSGWYR
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon. 8.00

14 - CYMRY'R EGLWYS NEWYDD
Festri Capel y Methodistiaid Velindre Road, Yr Eglwys Newydd. 7.30.
Eirlys Davies, Penarth.

14 - Y GYMDEITHAS GELTAIDD
Clwb Ifor Bach
"Cefndir Canu Gwerin yng Nghymru" - Dr.Meredydd Evans.

15 - CLWB IFOR BACH
Bwchadanas

16 - CLWB IFOR BACH
Cymru V Lloegr ar y teledu
Louis a'r Rocyrs

18-23 WYTHNOS CYMRU DDI-NIWCLIAR

18 - CND CYMRAEG CAERDYDD
Clwb Ifor Bach 7.30

18 - CANMLWYDDIANT MINNY STREET
Cyfarfod Cyhoeddus

23 - RALI CND
10.30 y tu allan i Neuadd y Sir, Newport Rd.
Noson yng Nghlwb Ifor Bach i ddilyn 9.00 tan 2.00. gyda Derec Brown a'r Racaracwyr.

24 - CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG
Cell Caerdydd
Clwb Ifor Bach 8.00.

24 - Y TWR TRAFOLI
Clwb Ifor Bach, 8.30.

27 - CYLCH CINIO'R BARRI A'R FRO
Siaradwr: Y Dr.Eurig Davies.

28 - Y GYMDEITHAS WLEIDYDDOL
"Swyddi i'r di-waith yng Nghymru" - Dr.Lyn Mainwaring.

---

MAWRTH

1 - CYMRODORION CAERDYDD
Neuadd U.W.I.S.T. 7.15.
Cinio Gŵyl Ddewi

1 - CLWB IFOR BACH
Noson Lawen Gŵyl Ddewi
Cawl a chan

2 - CLWB IFOR BACH
Yr Alban V Cymru ar y teledu
Geraint Griffiths a'r Band

4 - CLWB IFOR BACH
Disgo penblwydd yr ysgrifennydd - bar hwyr a chroeso i bawb.

6 - CYMDEITHAS GYMRAEG BRO RADUR
Noson Gwyl Ddewi yng Nghlwb Golff Radur.

8 - CYMRODORION CAERDYDD
Ysgol Glantaf 7.15
Cyngerdd gan blant yr ysgol.
Arweinydd: Alun Guy
Cadeirydd: Dr.Gwynfor Jones

9 - CLWB IFOR BACH
Y Ficar

10 - CAPEL DERWEN DEG
Oedfa Anenwadol 4.00
Parch.Lona Roberts

11 - CYMRY'R EGLWYS NEWYDD
Festri Capel y Methodistiaid Velindre Road, Yr Eglwys Newydd. 7.30.
Dathlu Gŵyl Dewi
Gŵr Gwadd: Arfon Williams

11 - MERCHED Y WAWR
Festri Minny St. 7.30.
Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Côr Tannau Taf.

13 - CYMDEITHAS Y DYSGWYR
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon. 8.00


CYFARFOD BLYNYDDOL: Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol blynyddol Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd ar ddydd Llun, Ionawr 7fed, 1985.

Swyddogion y cylch am 1985 yw:
Llywydd:John W.B.Watkins(Banc Masnachol Cymru),
Is-lywydd a Thrysorydd:Brian G.Evans.
Ysgrifennydd:Gwyn Lewis Davies.

Penderfynwyd cyfrannu at Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd, at y Dinesydd, at Gyfeillion Cymreig yr Anghennus, ac at noddi dysgwr i fynd ar un o gyrsiau iaith yr Urdd.

Fe fydd y Cylch yn ystod 1985 yn dal i gyfarfod am yn ail fis ar yr awr ginio a chyda'r nos. Bydd cyfarfod Chwefror ar nos Lun Chwefror 4 am 7.30 yng Ngwesty'r Parc. Y siaradwr fydd Euryn Ogwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglenni S4C.

# LLONGYFARCH




COLEGOL: Mae tri o ddisgyblion 6ed dosbarth newydd Ysgol Glantaf wedi cael cynnig lle gan wahanol golegau yn Rhydychen a Chaergrawnt ar gyfer Hydref 1985. Bydd Marc Edwards yn mynd i Goleg yr Iesu, Rhydychen. Derbyniodd Rhys Morris a Gethin Rees gynigion o Gaergrawnt; Rhys gan Gonville a Caius, a Gethin gan Goleg Emmanuel. Llongyfarchiadau i'r tri.


NESAWCH AT NESTA

ARBENIGWRIAG TRIN GWALLT
YN BROFIADOL AC A DDAW
I'CH CARTRE.

"Pa ots am yr eira,
pa ots am y glaw,
Daw Nesta i'ch tendio
beth bynnag a ddaw".

Cysyllter ar Caerdydd 751418
neu 51 Heath Park Ave.,
Mynydd Bychan.



Nani Gymraeg
i edrych ar ôl
babi chwe mis oed
yn ddyddiol,Llun - Gwener,
yn ystod tymhorau'r ysgol.
Y trefniant i gychwyn
ym mis Medi 1985.
Ffonier 691811.


# T.T YNG NGHLWB IFOR BACH!

DAETH DROS DDEG ar hugain o bobl ynghyd i gyfarfod cyntaf y Twr Trafoli yng Nghlwb Ifor Bach, nos Sul Ionawr 13. Roedd y tywydd yn enbyd o oer y tu allan ond erbyn cynhesu dros 'baned o goffi roedd pawb wedi cael cyfle i gyfarfod â'i gilydd a'r awyrgylch yn gartrefol a chyfeillgar.

I agor y cyfarfod esboniwyd yn fyr beth yw amcanion a gobeithion y Twr Trafoli, a gofynwyd i bawb lenwi holiadur er mwyn rhoi eu barn ar sut y byddent yn hoffi i'r fenter ddatblygu dros y misoedd nesaf, e.e. pynciau i'w trafod, dulliau o addoli. Er mwyn sicrhau llwyddiant y Twr Trafoli mae'n hanfodol fod pawb sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn teimlo y gallant fynegi eu dymuniadau eu hunain a bod ganddynt gyfraniad i'w wneud, oherwydd bod anghenion pawb yn wahanol. Drwy wneud hyn gobeithir y bydd pawb yn cael budd a bendith o'r cyfarfodydd.

Yn dilyn hyn cyflwynwyd y thema oedd dan sylw am y noswaith, sef "Perthyn - pam perthyn?" ar ffurf sgwrs ac ambell i ddarlleniad; yna rhannodd pawb yn grwpiau bychan a bu trafodaeth frwd a bywiog ar wahanol agweddau o'r thema, ac yn wir, pam perthyn i'r Twr Trafoli? Ymunodd pawb wedyn i gloi'r cyfarfod ag epilog, a oedd yn cynnwys gweddi, darlleniadau o'r Beibl a chaneuon ysgafn i gyfeiliant gitar.

Mae'r Twr Trafoli yn cyfarfod bob yn ail nos Sul am 8.30 yng Nghlwb Ifor Bach - 10 a 24 Chwefror (a phob pythefnos ar ôl hynny, wrth gwrs). Mae croeso cynnes iawn i bawb o bob oed droi i mewn ac ymuno yn y trafoli. Gobeithiwn weld mwy fyth o wynebau newydd yn y cyfarfodydd sydd i ddod!

# NYDDION-NEWYDDION-NEWYDD

MAE 1985 WEDI cyrraedd bellach, a gyda'r flwyddyn y mae cynlluniau ar gyfer gweithgaredd dros Heddwch yng Nghaerdydd yn prysur fynd o nerth i nerth.

Mewn cyfarfod o CND Cymraeg Caerdydd ar Ionawr 28 sgrifennwyd nifer o gardiau penblwydd i ddathlu Cymru Ddi-Niwcliar ac fe'u hanfonwyd at bobl drwy'r byd. Er fod Cymru yn bell o fod yn wlad hollol ddi-niwcliar, mae'r achlysur yn gyfle gwych i ddanfon negeseuon heddwch at arweinyddion gwledydd a pherthnasau. Mae'r cardiau penblwydd yn arbennig gyda cherddi gan R.S.Thomas a Gerallt Lloyd Owen, ac maent ar werth am 10c yr un.

Fel rhan o ddathliadau Wythnos Cymru Ddi-Niwcliar, 18-23 Chwefror, cynhelir cyfarfod yng Nghlwb Ifor Bach ar y nos Lun am 7.30 a chyfarfod arbennig ar y Sadwrn canlynol. Dyma drefn y dydd:

10.30: Ymgynnull wrth Neuadd y Sir, Newport Rd.
11.00 - 12.30: Gorymdaith i'r Swyddfa Gymreig.
1.00: Gwasanaeth dros Heddwch Eglwys Gadeiriol Dewi Sant, Heol Siarl.
12.30 - 5.00: Gŵyl Heddwch yn Undeb y Myfyrwyr, lle y bydd Joan Ruddock yn annerch am 3.30.

Bydd CND Cymraeg Caerdydd hefyd yn gyfrifol am stondin CND yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Bydd arnom angen cymorth gyda'r paratoadau ac yn ystod yr wythnos. Fel rhan o'n gweithgaredd ar gyfer yr wythnos byddwn yn cynnal cystadleuath i blant gynllunio bathodyn heddwch. Rhennir y gystadleuaeth yn ddwy ran: i blant o dan 10 oed ac o 10-16 oed. Y wobr fydd cynhyrchu'r bathodyn ar gyfer ei werthu yn osgystal â gwobrau cudd! Bydd goreuon y gystadleuaeth yn cael eu dangos fel rhan o'n harddangosfa. Cynlluniau ar bapur os gwelwch yn dda, gydag enw, cyfeiriad ac oed y cystadleuydd ar y cefn. I'w hanfon erbyn Mawrth 31 at:


Cystadleuaeth Heddwch
57 Heol Llanfair
Treganna
Caerdydd

* Os hoffech ymuno â Grwp CND Cymraeg Caerdydd llenwch y ffurflen isod a'i hanfon ynghyd a'r tâl priodol i:
Aelodaeth CND Caerdydd, 55 Heol Fidlas, Llanishen, Caerdydd.
Blwyddyn Newydd o heddwch i chi gyd!

- - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - -

ENW: ..........................................................
CYFEIRIAD: ....................................................
...............................................................
RHIF FFÔN: ....................................................

Amgaeaf y tâl priodol: Oedolion £2 Myfyrwyr/Pensiynwyr/Di-waith 50c
Sieciau'n daladwy i Grwp CND Cymraeg Caerdydd.



# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD 1985
## CAERDYDD A'R CYLCH
## PWYLLGOR LLETY A CHROESO

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd yn ystod wythnos Mai 27ain - Mehefin 1af, h.y. gwyliau hanner tymor. Disgwylir tua 12,000 o blant ac ieuenctid Cymru i'r ardal yn ystod yr wythnos a bydd angen llety i tua 5,000. Ein cyfrifoldeb ni fel pwyllgor fydd trefnu llety i'r ieuenctid, ond dibynnwn ar eich haelioni a'ch parodrwydd chi i dderbyn y bobl ifanc i'ch cartrefi. Gofynnwn yn garedig, felly, am swper ysgafn, gwely a brecwast yn rhad ac am ddim am noson (neu ragor os yn bosibl). Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn ystyried cymryd dau blentyn, neu ragor os yn gyfleus, gan nad yw plant yn hoffi mynd i gartrefi dieithr ar eu pennau eu hunain. Buasai gwely dros dro neu wely gwersyll yn hollol dderbyniol.
Os medrwch gynnig llety a fuasech gystal â llenwi a dychwelyd yr atodiad isod i Swyddfa'r Eisteddfod, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy.
Am fanylion pellach ffoniwch:
Caerdydd 753625 (Mrs. Nans Couch) neu 754396 (Mrs. Lis Evans).

Yr eiddoch yn gywir,
TEGWEN EVANS,
**Cadeirydd.**

✂- - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - -

Rhowch ✓ os gwelwch yn dda gogyfer â'r nosweithiau y medrwch gynnig llety gan nodi hefyd y nifer o fechgyn a/neu enethod.

| **LLUN** | **MAWRTH** | **MERCHER** | **IAU** | **GWENER** |
|---|---|---|---|---|
| dan 12 oed | dan 12 oed | 12-15 oed | 15-18 oed | dros 18 oed |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| . . .bechgyn | . . .bechgyn | . . .bechgyn | . . .bechgyn | . . .bechgyn |
| . . .genethod | . . .genethod | . . .genethod | . . .genethod | . . .genethod |
| ...athro | ...athro | ...athro | ...athro | ...athro |
| ...athrawes | ...athrawes | ...athrawes | ...athrawes | ...athrawes |

**ENW:**.......................................................... **RHIF FFÔN**.................

**CYFEIRIAD:** ...................................................................................

.........................................................................................................

# COLOFN
## Shân Emlyn

WRTH ESTYN darn o bapur a gafael mewn beiro i lunio'r golofn hon y mis yma, a finna heb unrhyw syniad am be i sôn amdano, fe ddwedais wrthyf fy hun "I be dwi'n cyboli?" Dyma ddechrau meddwl - pam? Ai am fy mod i'n cael pleser wrth ymhel â sgwennu? Wrth ystyried hynny dyma feddwl bod 'na haerllugrwydd yn perthyn i unrhyw un sy'n rhoi gair ar ddu a gwyn, gan fod hynny'n rhagdybio bod gan y darllenydd ddiddordeb yn yr ymdrechion. O feddwl gormod ar y trywydd yna mae'n debyg na fyddai neb ohonom ni'n mentro ymhel a sgwennu. Gwell rhoi taw ar y meddyliau yma!

Dyma roi'r gorau iddi a mynd ati i smwddio pentwr o ddillad - tasg fwy pleserus nag arfer gan 'i fod o'n fodd i gadw'n gynnes ar fore oer drybeilig. Y meddwl yn dal i droi o gwmpas y golofn a'r papur yma. Na, mae 'na reswm arall y mae'n haws byw ag o. Mae'r papurau bro yn ddatblygiad cyffrous a phwysig yn hanes yr hen genedl fach hynod yma - a braint yw cael bod yn rhan o fam papurau bro Cymru. Ia, dyna pam mae rhywun yn cyboli. Mi ryda ni i gyd, boed yn weithwyr neu'n ddarllenwyr y Dinesydd yn rhan o'r cyffro hwn.

Cofiaf ffrind imi, ia, yn y lle hwnnw y byddai'n trio osgoi'i enwi rhag diflasu'r darllenydd - ffrind o'r Gaiman - yn tristhau bod y Gymraeg yn marw yn Y Wladfa. Tristach na thrist iddi hi yw bod y Gymraeg yn marw yno "ac yn marw heb gicio". Elfen bwysig ym mharhad yr iaith yw'r gic y mae'r papurau bro yn 'i rhoi iddi. Felly ga'i apelio atoch chi i'n cefnogi, drwy gyfrannu i'r papur hwn, sgwennu pwt rwan yn y man, ac os yn bosib, sgwennu pwt bach ar dudalen o lyfr sieciau. Diwedd y gan yw'r geiniog!


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**


# RHYWBETH AT DDANT PAWB

DOES OND YCHYDIG o'r pymtheg mil o Gymry Cymraeg Caerdydd sy'n gallu honni eu bod nhw'n perthyn i'r drydedd genhedlaeth neu fwy o Gymry'r ddinas. Yma, gan fwyaf, mewnlifiad o'r ardaloedd Cymraeg sydd wedi sicrhau parhad yr iaith yn ystod y can mlynedd ddiwethaf. Ond tan yn ddiweddar, colli'r iaith wrth iddynt gael eu llyncu gan Seisnigrwydd fu hanes y mwyafrif o ddisgynyddion y mewnfudwyr hyn.

Sut bynnag, ers dechrau'r 50au, mae datblygiad a thwf addysg Gymraeg a sefydliadau cenedlaethol, lle cyflogir nifer sylweddol o Gymry Cymraeg, wedi wedi gweddnewid y sefyllfa. O'r diwedd mae'r Cymry wedi dechrau ymddwyn fel bod nhw'n benderfynol o fod yma am byth. Mae'n holl bwysig felly ein bod ni'n plannu'n gwreiddiau'n ddwfn wrth adeiladu fframwaith cyfan o bopeth sydd ei eisiau er mwyn cynnal bywyd Cymraeg all ffynnu ochr yn ochr a diwylliannau eraill y ddinas.

Yn y modd hwn, fe ddaw Cymry, neu yn hytrach, mae Cymry yn dod, yn rhan annatod o gymeriad ein prifddinas unwaith eto; ac nid bellach, fel eu hystyriwyd yn y gorffennol agos, yn elfen o'r tu fas oedd yma dros dro yn unig. Mae'r datblygiad hwn eisoes yn ffaith.

Yn ei lyfr "Bywyd Cymro", mae Gwynfor Evans yn cyfeirio at yr argraff ddofn a wnaethpwyd arno gan ymroddiad gwladgarwyr yng ngwlad y Basg: "Cyfrannai'r gweithwyr llaw ac eraill tuag at gost sefydlu eu papur dyddiol a gostiodd bron i ddwy filiwn o bunnau, a thuag at gost sefydlu eu clybiau, y Batsoci. Cafodd Dafydd Williams a minnau groeso tywysogaidd yn un o'r rhain yn Bilbao. Nid clwb yfed mo'r clwb, er bod bar ynddo wrth gwrs. Ceir pob math o weithgareddau mewn cerddoriaeth, drama, llenyddiaeth, ffotograffiaeth ac ati. Mae cyfleusterau rhagorol i wneud bwyd yno. Eisteddodd Dafydd a minnau gyda deugain arall i ginio gwych. Costiodd y clwb hwnna £150,000. Roedd un arall ar ei hanner yn y ward nesaf a gostai £250,000. Meddent ar hanner cant o'r clybiau hyn drwy'r wlad ac anelent at godi pedwar ugain. Gofynnais i drefnydd eu plaid genedlaethol pa fath o bethau a drefnent i godi'r arian mawr hwn. "Ni threfnwn ddim", meddai, "Awn at gefnogwr ac edrych ym myw ei lygad a dweud yr hoffem gael mil o bunnau ganddo, ac fe'i cawn". Amhosibl dychmygu'r Cymry yn ymateb fel hyn ..... Ni fuon ni dan ormes Franco".

Wrth ystyried hyn oll, a'r ffaith bod cymaint o Gymry Caerdydd yn dibynnu ar ffyniant yr iaith Gymraeg er mwyn ennill bywoliaeth, nid yw'n afresymol i ddisgwyl inni gyfrannu'n hael tuag at fenter, megis gwneud Clwb Ifor Bach yn ganolfan gymdeithasol Gymraeg sy'n deilwng o'r Brifddinas.

Ers i'r clwb agor, ddeunaw mis yn ôl, cynhaliwyd saithdeg o nosweithiau adloniant yno, ynghyd a chystadleuthau cwis, ceilys, dartiau a snwcer. Gweithredai fel canolfan i dimau pêl-droed, cymdeithasau barddoniaeth, gwyddoniaeth, di-arfogi niwcliar, dosbarthiadau nos ac fel man cyfarfod achlysurol i sawl mudiad, gan gynnwys Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Mudiad Ysgolion Meithrin, Plaid Cymru, Merched y Wawr a'r Urdd.

Ond cam cyntaf yn unig oedd sefydlu Clwb Ifor Bach; y cam nesaf yw ei wneud yn ganolfan sy'n deilwng i Gymry o bob oedran, galwedigaeth a chefndir. Serch yr amrywiaeth o weithgareddau a gynhelir yn y Clwb ar hyn o bryd, gweddol gyfyng yw'r defnydd a wneir o'r lle yn ystod y dydd a nosweithiau'r wythnos ar wahan i nos Fercher. Ac er bod dros wyth cant o aelodau gan y Clwb, ychydig o bobl dros dri deg oed sy'n bwrw mewn.

Hen glwb y Lleng Brydeinig yw'r adeilad gyda chymeriad y mudiad yna'n amlwg o hyd gyda'i stafelloedd mawr unffurf a seddau a meinciau P.V.C. a'r bariau gyda'u harwynaebau fformeica, sy'n gallu bod yn atyniadol pan fo'r lle'n wag. Ond mae'n ddigon clud a chysurus a chynnes ar nosweithiau poblogaidd wrth ddefnyddio goleuadau lliwgar isel a chasetiau Cymraeg i greu awyrgylch ddymunol.

Lleolir y Clwb yn gyfleus iawn yn Heol Womanby, gyferbyn a'r castell gyda maes parcio aml-lawr ar ben yr heol. Mae maint yr adeilad hefyd yn ddigonol i wneud darpariaeth ar gyfer diddordebau pob un ohonom. Mae pwyllgor y clwb yn gwneud gwelliannau bach o hyd i'r stafelloedd, ond cyn bo hir bydd yn rhaid wynebu'r her o wneud newidiadau sylweddol i droi'r adeilad yn ganolfan y gall pawb ymfalchio ynddi. Gobeithio, bryd hynny, y bydd Cymry Cymraeg yn dangos gweledigaeth ac haelioni wrth ymateb i'r alwad.

OWEN JOHN THOMAS.

# 'STEDDFOD YR URDD

MAE'N ARGOELI'N DDA!

DIDDOROL OEDD darllen atgofion Hywel D.Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith pan ddaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Gaerdydd ym 1965. Yr un broblem sy'n codi ar ôl ugain mlynedd, sef sicrhau digon o arian i lwyfannu'r Ŵyl.

Carwn ddiolch yn gynnes i gefnogwyr yr Ŵyl am lafurio'n galed i godi arian. Mae cyfanswm y derbyniadau yn cynyddu'n sylweddol, ond mae angen ymdrech arbennig o hyn tan fis Medi i gasglu £18,000 arall.

Cafwyd derbyniadau sylweddol gan y cymunedau:
Y Rhath a Glan y Llyn: £798; Ystum Taf: £230; Penarth: £512; Y Bont-faen: £384; Penylan: £954; Rhiwbeina £2,541; Treganna: £102; Pentwyn a Llanedyrn: £206; Llanbedr y Fro: £50; Radur: £136; Y Waun: £1,413; Llandaf: £1,217; Dinas Powys: £502; Cyncoed: £639; Llysfaen: £943.

Trefnwyd gweithgareddau llwyddiannus hefyd gan gymunedau Trelai, Creigiau, Pentyrch, Ffynnon Taf, Y Tyllgoed a'r Eglwys Newydd - ac mae'r Ysgrifennydd Ariannol, Glyn O.Jones, yn aros yn eiddgar am y cyfraniadau. Diolch i Glyn am ei waith trylwyr a chwyldroadol.


Mae llawer i gymuned wedi cyrraedd y nod, ond beth am ymestyn yr ymdrech yn y misoedd nesaf?

Mae angen arian yn sicr, ond hefyd gallwch helpu'n ymarferol drwy ymateb yn gadarnhaol i apêl diffuant, Tegwen, Mai Dyfi, Nans Couch a Lis Evans - Swyddogion Pwyllgor Llety a Chroeso - i agor eich drysau i groesawu 5,000 o blant ac ieuenctid Cymru i'ch haelwydydd.

Hefyd mae Merfyn Jones a Mair Owen, swyddogion y Pwyllgor Stiwardiaid, yn awyddus iawn i gael help ymarferol ar faes yr Eisteddfod. Bydd angen cannoedd i ofalu am y gwahanol ddyletswyddau a bydd yn gyfle ardderchog os ydych am fod yn rhan o'r Ŵyl.

Beth amdani? Mae rhagolygon yr Ŵyl yn addawol dros ben.

J.E.Malcolm Thomas
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith



# COFIO 'STEDDFOD '65

TYBED SAWL CYFARFOD o'r Pwyllgor Llên sydd wedi'i gynnal yn ystod y deunaw mis diwethaf ar gyfer Eisteddfod '85? Dim ond dau gyfarfod a fu ar gyfer Eisteddfod '65! A bu'r ddau yn hyfrydwch pur i bawb a'u mynychodd - yn wir, fe ddeil yr hen aelodau o'r pwyllgor hwnnw i dystio mai dyna'r pwyllgor gorau iddynt fod ynglŷn ag ef erioed.

Dan Lyn James oedd yr Ysgrifennydd a minnau'n rhyw gyw o Gadeirydd ac fe gawsom yr hawl i gasglu ein haelodau ac fe benderfynodd y ddau ohonom y noson y cawsom ein hethol y gwahoddem griw dethol iawn. Y cymwysterau angenrheidiol oedd eich bod yn ymddiddori yn y pethau, eich bod o dan ddeugain oed ac na fyddech yn dweud "Na" pe cynigid gwydraid bach o win i chi! Ni fu criw mwy llawen ac ymroddgar erioed.

Yn nhŷ Dan ac Elizabeth y bu'r ddau gyfarfod - y pwyllgor am saith o'r gloch yn brydlon ac wedyn pryd o fwyd yn yr un tŷ. Yr oedd Elizabeth wedi paratoi gwledd i ni - nid rhyw fisgeden a phaned, ond pryd sylweddol na chaech ei debyg mewn unrhyw westy. Yr oedd yn wirioneddol odidog a'r pwyllgorwyr wedi synnu a rhyfeddu at y ddarpariaeth. Gallaf eu gweld yn awr - gwen radlon ar wyneb pob un a'r sgwrs a'r cleber yn llawen orawennus.

Yn y cyfarfod cyntaf, penderfynwyd ar destunau pob cystadleuaeth yn hynod o ddidrafferth er inni gael un dadl ysbrydoledig o ddoniol rhwng Moc Rogers a Ben Harries - Moc am gynnwys cystadleuaeth ysgrifennu Salm o Fawl i'r Tractor a Ben yn dadlau fod salm yn ffurf rhy ddyrchafol i rywbeth fel tractor! Pleser oedd gwrando ar y ddau.

Ymhen ychydig ddyddiau derbyniodd pob un ohonom restr y cystadleuthau gan Dan a hysbysiad o'r cyfarfod nesaf ar gyfer adolygu'r testunau a dewis beirniaid. Ychydig o newid a fu ar y testunau a chafwyd pobl cymwys yn feirniaid. Gorffenwyd y cyfan mewn rhyw awr a hanner. Yna, gwahoddiad i'r ystafell fwyta lle'r oedd gwledd arall yn ein haros!

Buom yno tan o leiaf unarddeg a gallaf weld Wyre Thomas yn awr yn sgwrsio'n hamddenol gyda Dan nes i ni feddwl ei bod yn bryd i ni ymadael - a dyma ryw brysurdeb rhyfedd yn gafael ar Wyre wrth fynd trwy'r drws. Yn wir, yr oedd brys arno i gyrraedd ei gerbyd - hen fan Austin. A'r rheswm am y brys? Yr oedd yr hen gyfaill wedi gadael ei gymar ar ei phen ei hun yn y fan ers saith o'r gloch ac mae'n siwr iddo'i darbwyllo ei fod wedi bod yn pwyllgora'n ddygn. am bedair awr! A'r fan wedyn - yr oedd motorbeic gydag e' yn ei chefn "Rhag ofn i'r fan dorri i lawr"!


Dim ond dau beth arall oedd ar ôl i'w gwneud, sef llunio proclamasiwn ar gyfer yr Ŵyl Gyhoeddi ac ysgrifennu cywydd croeso. Fi gafodd y ddau jobyn hynny a'r unig beth a gofiaf o'r cywydd yw un cwpled lle'r oeddwn yn addo tywydd braf i bawb a ddeuai i'r Eisteddfod:
"Daw'r haf yn frwd i'r fwyn fro,
Rholiwch bob ymbarelo!"
Merched Coleg y Barri oedd yn canu'r cywydd ac Alwyn Prosser a ddarllenodd y Proclamasiwn yn wyneb lampau Pafiliwn Gerddi Sophia ar brynhawn poeth iawn.

Braf o beth yw eineidiau hoff cytun ar bwyllgor.

Islwyn Jones.


A ydych yn priodi eleni?
Ffotograffiaeth Creadigol gan
**GWENAN**
**CAERDYDD 732233**
Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.


DARLITHIO: Daeth nifer dda ynghyd yn Tabernacl ar waethaf y tywydd garw diweddar i wrando darlith Nia Powell ar fywyd yng Nghymru yn nyddiau Elisabeth 1. Ffrwyth ymchwil ar hen ddogfenau o'r cyfnod oedd y ddarlith ac fe'i derbyniwyd gyda diddordeb a gwerthfarogiad anghyffredin. Roedd yn hyfryd cael Nia 'nol am dro, a gobeithiwn cael y fraint o'i chlywed ar ei hen aelwyd rhywbryd eto.




CYMDEITHAS GYMRAEG BRO RADUR: Bu parti y Gymdeithas yn llwyddiant mawr fel y llynedd.Unwaith eto yr oedd adloniant yn nwylo medrus y dihafal Heddwyn Richards a'i gyfeillion o'r dosbarth Cadw'n Heini.Roedd yr ystafell yn y Ty Nant yn fwrlwm o hwyl a chan a bu'r noson yn gyfrwng i ychwanegu at Gronfa Steddfod yr Urdd.

Bydd cyfarfod Gwyl Ddewi'r Gymdeithas yn cael ei gynnal yng Nglwb Golff Radur ar nos Fercher Mawrth y 6ed.

## TORTH O FARA

YCHYDIG O FANION bethau y mis hwn i'ch difyru yn y tywydd oer yma.

Yn gyntaf diolch i bawb a noddodd fy ympryd i gasglu arian i Oxfam yn mis Tachwedd y llynedd - derbyniwyd £83.50. Mae'r ymgyrch wedi bod yn llwyddiannus iawn. Nid oes gwybodaeth ar gael hyd yn hyn o'r cyfanswm a gasglwyd ond mae'r swyddfa yng Nghaerdydd wedi addo anfon y manylion i mi pan fyddant yn barod.

Ymgyrch arall i ennill momentwm yw'r ymgais i gael pobl i gymryd mwy o ofal dros yr hyn y maent yn eu bwyta. Dengys ystadegau bod cyfradd marwolaeth o afiechydon y galon mewn pobl rhwng 40 a 69 oed yn parhau i gynyddu ym Mhrydain. Cyhoeddwyd llyfryn ar guro afiechyd y galon "Beating Heart Disease" gan Y Cyngor Addysg Iechyd yn ddiweddar.

Ynddo ceir gwybodaeth am wahanol agweddau o'r clefyd gan gynnwys awgrymiadau ynglyn a gwella ein diet. Rhoddir enghreifftiau o brofiadau pobl sydd wedi cael trawiad ar y galon a sut y bu hyn effeithio ar eu bywydau - diet ac ymarfer corff yn enwedig - o ganlyniad i hyn. Gellir cael copi o'r llyfryn o'r Cyngor Addysg Iechyd, 78 New Oxford Street, Llundain WC1A 1AH, neu o'ch canolfan iechyd lleol.

Mae arbenigwyr Gwyddor Tŷ cwmni Tesco wedi bod yn brysur hefyd yn cyfrannu at yr ymgyrch. Cyhoeddwyd taflen ganddynt ar fwyd a iechyd sy'n rhoi syniadau synhwyrol ynglŷn â dewis ein bwyd. Mae'r cwmni hwn yn cychwyn rhoi gybodaeth am faeth ar rhai o'r bwydydd a werthir ganddynt mewn dull syml. Defnyddir côd sy'n dangos bod bwyd yn isel mewn halen, siwgr neu galoriau; yn gyfoethog mewn fitaminau C neu A, neu ffeibr ac yn y blaen.

Ceir gwybodaeth am hyn yn y llyfryn ac hefyd disgrifiad o sut i ddeall tabl o ddadansoddiadau maeth sydd i'w gweld ar rai bwydydd sydd wedi'u prosesu a'u pacio. Bydd rhagor o daflenni yn cael eu cyhoeddi gan y cwmni yn ystod y flwyddyn, yn Saesneg, o dan y teitlau Ffeibr, Fitaminau, Halen, Siwgr, Brasder, Protein, Iechyd a Ffitrwydd Corfforol. Gellir cael y taflenni hyn am ddim yn arch-farchnadoedd Tesco.

Darllenais erthygl ddiddorol yn ddiweddar ar hanes y grawnfwyd brecwast na all unrhywun fwyta mwy na dau. Dyfeisiwyd "Shredded Wheat" 90 mlynedd yn ôl gan dwrnai yn yr Amerig oedd yn dioddef o dyspepsia. Cyfarfu ef â gŵr mewn gwesty yn bwyta rhywbeth tebyg i'n llymru ni, hwnnw'n cael rhyddhad o symptomau dyspepsia wrth fwyta'r bwyd hyn. O ganlyniad i'r cyfarfod hyn cychwynodd y twrnai arbrofi i wneud grawnfwyd gan bobi a charpio gwenith. Nid yw'r dechneg a ddyfeisiwyd wedi newid llawer ers iddo gael ei berffeithio bron i ganrif yn ôl.

Dengys yn yr erthygl bod cynnwys y grawnfwyd hwn yn cyfarfod â rhai o awgrymiadau dietegwyr ynglŷn â'r hyn ddylem geisio anelu ato yn ein diet - mae'n isel mewn siwgr a halen ac yn cynnwys cyflenwad da o ffeibr.

Gan bod y tywydd mor oer ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd pibellau dwr ym rhewi. Dyma rhai awgrymiadau i rwystro hyn rhag digwydd. I rwystro seston rhag rewi mewn ystafell ymolchi oer neu mewn toilet y tu allan i'r tŷ rhowch ychydig o ddafnau o glyserin ynddo ac arllwyswch halen i lawr y pibellau gwastraff. Cadwch y plygiau yn y bath a'r sinciau yn ystod y tywydd oer i rwystro dafnau o ddŵr o'r tapiau rhag casglu yn y pibellau a rhewi.

Os ydych wedi bod yn cerdded yn yr eira efallai bydd ôl halen ar eich esgidiau. I gael gwared o'r marciau hyn cymysgwch ddwr a finegr mewn swm cyfartal a rhwbiwch i mewn yn ysgafn gyda sbwng. Gadewch i'r esgidiau sychu'n naturiol. Peidiwch eu rhoi'n agos i wres a llathrwch y sgidiau cyn eu gwisgo.

TAITH YSGOL RHYDFELEN
I WLAD YR IORDDONEN, PASG 1985

Mae Cwmni Richards Travel
10 Stryd Cowell, Llanelli
05542 750565
yn gwahodd y sawl sydd â diddordeb yn y gwyliau hyn i ddod i
WESTY'R CHURCHILLS, LLANDAF
ar nos Fawrth Chwefror 5, 1985
am 7.00 o'r gloch
pryd y bydd Jasmin Tours yn trafod nodweddion y daith gyda chymorth ffilmiau a sleidiau.
Trefnir Coffi a bisgedi ac mae parcio'n rhwydd.

Am fanylion llawn cysyllter â
RICHARDS TRAVEL
neu gyda Mr.Hywel Jeffreys
Caerdydd 754960.

## PARABL PARRI

WEL HELO a pha hwyl sydd erbyn hyn a ninnau i mewn i ail fis 1985 - mis bach. Mis sydd nag yma nag acw gan ein bod wedi torri cefn y gaeaf ag yn edrych mlaen at y gwanwyn - yn ŵyn ag yn gennin pedr a'r dydd yn ymestyn.

Ddoe ddiwethaf rown i'n sylwi fod y botel "siryp egroes" (rose-hip syrup) bron a darfod - do fe gafwyd annwyd a dolur gwddw ag mi wnaeth y ffisig cartref 'ma a wnaed gan fy chwaer yn ôl ym mis Hydref, ei waith yn gampus - a rhyw ddyfaru yr ydw i nad dyna'r ryset a anfonais i lyfr coginio Byrti Bws. Ffrwyth llafur caled ond gwerthfawr Dianne Hughes fu wrthi mor ddiwyd yn paratoi - a'r cynllun wedi'i gyhoeddi yn waith glan a difyr. Mae'n siwr o ddod â chryn elw i Gronfa Steddfod yr Urdd. Mi gafodd y llyfr groeso mewn sawl hosan Nadolig tua'r gogledd 'na ac mae Steddfod Dyffryn Ogwen yn mynd ati ar hyn o bryd i drio cyhoeddi rhywbeth tebyg - ac ar ôl cael golwg ar ambell ddalen o'r llyfr hwnnw meddwl y byddai ryset "Crempog efo Burum" yn addas y mis yma - dyma hi:

- 1 pwys o flawd plaen
- 3 owns o siwgr
- 3 owns o fargarin
- 3 owns o lard
- 3 wy
- 1 owns o furum ffres
- neu
- 3 llond llwy de o furum sych
- 1 peint o lefrith
- pinsiaid o halen.

Rhowch dipyn o siwgr ar y burum. Rhowch y blawd yr halen a'r siwgr mewn dysgl a'u cymysgu. Curwch yr wyau. Toddwch y margarin a'r lard yn y llefrith a chymysgwch yr holl gynhwysion. Gadwech iddo sefyll am awr nes bydd y gymysgedd wedi codi. Ffriwch y crempogau yn y dull arferol.

Dydd Mawrth Ynyd da i chi¥

MERCHED Y WAWR: Ar noson oer cafodd Mr Tecwyn V.Jones wrandawiad cynnes yn festri Minny St. Yr Hen Galan oedd ei destun a chawsom ein hatgoffa am lawer i hen arfer a'i wead o gysylltiadau mytholegol. Mor bwysig oedd troad y rhod hefyd i'n cyn-deidiau a'u llawenydd hwy o weld y dyddiau'n ymestyn a'r tywydd oer yn llareiddio.

Diolchwyd iddo a chafodd pawb orffen mewn da bryd heb i'r eira a'n bygythiai wrth fynd ein dala.

# COLOFN YR HARPŴN

UN O'R LLYFRAU harddaf ei ddiwyg a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio yw Llewelyn Y Beirdd o gyhoeddiadau Barddas.

Ceir tair adran i'r gyfrol, tair detholiad o gerddi yn sôn am Lywelyn, o gyfnod y Gogynfeirdd, Beirdd yr Uchelwyr, a'r cyfnod diweddar. Mae rhagymadrodd i bob adran gan Caerwyn Williams, Emrys Rolant ac Alan Llwyd.

Mae Llewelyniaeth wedi bod yn llinyn sy' wedi rhedeg drwy ymwybyddiaeth "cenedlaethol" Cymry'r ugeinfed ganrif o O.M.Edwards ymlaen, ac yn ei ragymadrodd i'r adran fodern, pwysleisia Alan Llwyd bwysigrwydd myth Llywelyn, gan ddyfynnu geiriau J.R.Jones mai "y Goron yw sumbol hynaf, gwytnaf a pharchedicaf yr 'undod' Prydeinig." Ychwanega Alan llwyd, gan grynhoi dadl Jones, "a rhaid inni ymladd y frwydr symbolau hon â symbolau o'n heiddo ein hunain."

I Alan Llwyd, fel i sawl un arall, pwysigrwydd Llywelyn yw "i waed aberth Llywelyn faethu tir ein gobeithion." Nid rhamantu a geir yn y cerddi modern i Lywelyn, yn ôl dadl Llwyd, ond "dicter cenedl wedi deffro."

Yr ydym bellach yn sgil y rhaglen gomedi/ddogfen honno "The Dragon Has Two Tongues", wedi hen arfer â'r cysyniad nad yw hanes yn wirionedd gwrthrychol, ond yn hytrach yn fater o ddehongli yn ôl gweledigaeth a mympwy y sawl sy'n edrych ar hanes. Onid felly y proses o greu mythau yw hanes?

O dderbyn hynny, onid yw'n gyfeiliornus ceisio ymddihatru y Llywelyn hanesyddol oddiwrth y Llywelyn symbolaidd? Dengys rhagymadrodd meddylgar Eurys Rolant i'w adran ef nad oedd y fath rwyg rhwng hanes a myth mor amlwg yn y cyfnod hwnnw. Dengys yr adran hon hefyd mor anwadal yw symbol. Gwelid Llywelyn yn y cyfnod hwn fel symbol nid yn unig o annibyniaeth Gymreig ond hefyd o obaith am weld pen-ôl Cymreig yn eistedd ar orsedd Lloegr. Gwelir hyn yn glir yn y cerddi o fawl i'r Tuduriaid a geir yn y gyfrol.

Onid oes rhywbeth yn anonest ym mharodrwydd cenedlaetholwyr traddodiadol Cymru i dderbyn ein myth modern am Lywelyn heb fynd ati i ystyried o ddifri yr hyn oedd Llywelyn go iawn? Ai gweddaidd yw dethol allan o'n holl wybodaeth sydd ar gael am Lywelyn ein hoff ddarnau a dweud mai dyma hoffem ei gredu amdano? Onid yw'n fwy priodol i ni yn yr ugeinfed ganrif ystyried yr holl dystiolaeth am Lywelyn a cheisio cyfannu'r bwlch sy'n ein meddyliau rhwng myth a hanes?

O wneud hynny, cawn olwg fwy gonest ar Lywelyn a hefyd arnom ni ein hunain.

DIGWYDDIAD O DDIDDORDEB oedd y noson a gynhaliwyd yn Chapter nos Sadwrn Ionawr 19, pan gafwyd darlleniadau barddoniaeth gan nifer o feirdd Eingl-Gymreig. Gan fod elw y noson yn mynd i gronfa streic Undeb y Glowyr, roedd y cerddi a ddarllenwyd gan fwyaf yn rhai perthnasol i Gymru heddiw. Yr oedd yno ymwybyddiaeth fod brwydr y glowyr yn creu hanes ac hefyd yn creu myth. Fel y dywedodd Dai Smith yn ei anerchiad y noson honno, nid brwydr y Glowyr yn unig mohoni: mae arwyddocad i'r streic tu hwnt i'w arwyddocad materol mewn termau o ba byllau glo sydd i gau.

Yr unig drueni am y noswaith yw nad oedd yno feirdd yn darllen cerddi Cymraeg, ond pa ryfedd os ydynt yn dewis seilio eu daliadau gwleidyddol ar symbol arglwydd ffiwdal o'r drydedd ganrif ar ddeg?

Emyr Lewis.

---

YN EISIAU: SWYDDOG HYSBYSEBION
Dosberthir Y Dinesydd yn rhad ac am ddim.
Dibynwn, felly, yn helaeth ar hysbysebion.
A oes un brwd o blith darllenwyr
Y DINESYDD
a fyddai'n barod i ymgymryd â
chasglu hysbysbion, a hynny'n fisol?
Ffonier 751469.

I Gyfarch John Brace
Ysgrifennydd Cyd-bwyllgor Addysg Cymru
Cyn-gyfarwyddwr Addysg Morgannwg Ganol
Ar ei ymddeoliad
Darllenwyd yn ei Ginio Anrhegu
yng Nghaerdydd, Rhagfyr 14, 1984.

Rhodd y Cyd-bwyllgor Addysg - yw'r ginio
A'r gwinoedd yn gymysg,
Cydnabod wnawn eich dawn a'ch dysg
Yn dorf heb unrhyw derfysg.

Ddoe rhoi'i egni'n ddirwgnach, - rhoi'i orau
I'r werin a'r crachach,
Boed bwyllog eich byd bellach
Yn yr ardd a'r awyr iach.

O ddewis bu'r ymddeol, - eich hanes
Wnawn chwennych mewn cyfrol;
Hwre! chi, mae ar eich hol
Enw Morgannwg Ganol.

Dim pwyllgor mwy na gormes, - haeddiannol
Hamddena o'r harnes;
Hybu'r iaith bu nod John Brace
A gwen a'i bib yn gynnes.

Slap happy in your slippers, - what a life,
Veg, fruit, lawns and flowers;
A life of bliss his and hers,
And not a lot of letters.

G.Wyn James
Trefnydd Cenedlaethol/
Ysgrifennydd Cyffredinol U.C.A.C.


**SIÔN A SIÂN**

CYFLE I ENNILL
MIL O BUNNAU!

Oes, mae cyfle o hyd i ychydig
o barau priod geisio am y wobr lawn ar
SIÔN A SIÂN.

Mae'r rhaglen yn cael ei recordio
yng Nghaerdydd
yn ystod yr wythnosau nesaf.

Felly os oes diddordeb gennych
cystlltwch ar frys a Swyddfa
SIÔN A SIÂN
Caerdydd 590137
HTV Cymru
Caerdydd, CF5 6XJ.

HTV CYMRU

HTV CYMRU

**Y Gorau yn Gyson i Gymru**

# Cynhyrcha HTV Cymru amrywiaeth mawr o raglenni teledu ar gyfer S4C

Daw ein rhaglenni o bedwar ban y byd yn ogystal ag o Gymru – o'n canolfannau teledu yng Nghaerdydd a'r Wyddgrug, a thrwy gyfrwng ein hunedau, ein cynhyrchwyr a'n cyflwynwyr, ym Mangor a Chaerfyrddin. Ymunwch â'r Cyffro Teledu drwy raglenni

HTV CYMRU ar S4C

**Y Gorau yn Gyson i Gymru**

# Y SILFF LYFRAU

LLWYBRAU'R COF: Cyfrol o Atgofion am Lady Edwards.
Cwmni Urdd Gobaith Cymru Corfforedig £1.75.

Casgliad cryno o atgofion am y foneddiges o Lerpwl a ddaeth yn wraig i sylfaenydd yr Urdd Gobaith Cymru ac a fu'n agos gysylltiedig â gweithgarwch y mudiad hwnnw am bron drigain mlynedd yw "Llwybrau'r Cof".

Yn graidd i'r casgliad ceir cadwyn o atgofion ei hwyres ddeunaw mlwydd oed am ei Nain a fu farw flwyddyn ynghynt. Ni fwriadai Mari Emlyn Edwards gyhoeddi ffrwyth ei myfyrdod ac fe berthyn i'w hatgofion a'i sylwadau dadlennol ddiffuantrwydd amlwg o'r herwydd.

Atgofion cynnes, edmygus a geir gan mwyaf - synnwyr digrifwch ei Nain, ei Chymraeg unigryw, ei dawn adrodd storiau, ei chwaeth a'i hetiau "anfarwol" ac, wrth gwrs, y modd y bu'n gefn i Syr Ifan. Ceir rhai sylwadau lled feirniadol hefyd ond y mae'r rhieny wedi'u tymheru â didwylledd cywir merch ifanc sydd, tra'n cyfaddef bod ei theimladau tuag at ei Nain yn "oriog", yn cydnabod iddi chwarae rhan fawr a hapus yn ei bywyd.

Yn sgil atgofion Mari ceir cipolwg difyr ar nifer o aelodau eraill y teulu adnabyddus hwn a chyfle arall i fwynahu digrifwch nifer o'u hanesion teuluol. Cyfrannwyd atgofion pellach gan Norah Isaac, Ivor Owen, Gwennant Gillespie a Thomas Parry a chynhwysir detholiad da o ddeunydd darluniadol. Mae'r casgliad atgofion ar ei hyd yn hynod ddarllenadwy a chyflwynir darlun byw a chytbwys o Lady Edwards a'i chyfraniad.

ALUN TREHARNE.

Jane Edwards: CADNO RHOS-Y-FFIN
Gwasg Gomer £5.75
Heini Gruffudd: EWYLLYS I LADD
Y Lolfa £2.45

Dyma ddwy nofel eitha darllenadwy.

Math o "Peyton Place" yw nofel Jane Edwards; darlun o'r dosbarth canol Cymreig sydd yn cynnal partion ysgaru, yn yfed coffi yn y bath, ac yn mynd i waelod yr ardd i chwydu. Mae yma nifer o barau priod, a dau ifanc a fyddai, efallai, wedi priodi, pe na bai am farwolaeth sydyn un ohonynt.

Mae'r stori yn ddigon difyr pan na fyddwch yn gorfod dyfalau pwy sy'n siarad a beth yw'r berthynas rhwng hwn neu hon a'r llall, a phan na fydd yr awdur yn mynnu gwthio ei sylwadau uniongyrchol ei hun i ganol y naratif.

Ceir yma nifer o gymeriadau diddorol, megis Bryn a'i anesmwythyd a'i synnwyr digrifwch, a Magi a'i blerwch a'i llythyra à la Glenda Slagg.

Nofel dditectif heb dditectif a geir gan Heini Gruffudd. Cyfreithiwr o'r enw Aled Beynon sy'n ceisio cyflawni'r swydd honno wrth iddo dyrchu i gymlethdodau teuluol y bobl drws nesaf, a rhaid llongyfarch yr awdur am ei ddewrder wrth gyflwyno inni arwr sydd yn for hunan-gyfiawn, cecrus, alcoholig.

Mae gormod o sgwrsio yn y nofel ond digon o ddigwyddiadau cyffrous hefyd, megis damwain Aled a'r gwrthdaro rhwng Glen a'i dad. Glen, gyda llaw yw'r corff yn y frawddeg "Mae gennym gorff" a draddodir yn y bumed bennod (allan o ddeuddeg). Trueni na chawsai ei ladd ynghynt, a'r awdur, felly, yn gallu hepgor llawer o'r rhagymadroddi. O hyn ymlaen cawn stori eitha hwyliog, a'r hyn oedd yn apelion'n arbennig ataf i oedd y syniad fod y llofrudd yn dal yn rhydd, ac yn byw drws nesaf. Beth am gloi'r drws yna, rhag ofn!

PHILIP WYN JONES.

HEN GELFI SBAR?
Mae angen hen gelfi neu hen orchuddion celfi ar ystafell gyffredin dosbarth 6 Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Os credwch y gallech gynnig hen ddodrefn neu orchuddion cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda. Fe werthfawrogir pob cyfraniad.

TAFLEN
LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.
Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.
Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn)
CYFAMODIR POB ELW I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD


DOSBARTHIADAU IAITH
Clwb Ifor Bach
Cymraeg:
Blwyddyn 2, bob nos Lun.
Cwrs Croesi'r Bont (i roi hyder i'r sawl sydd bron yn rhugl) nos Fawrth, 7.30 - 9.00.
Gwyddeleg: Nos Iau.

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Mis fydd yn llawn prysurdeb a digwyddiadau, a materion serch ar i fyny ond i chi ffrwyno'ch byrbwylledd. Cyfnod ardderchog i ddechrau unrhyw beth newydd.
TAURUS: Mis ardderchog i hyrwyddo'ch gyrfa - daw sawl cyfle ffortunus i'ch rhan ond i chi blygu i'r drefn. Bydd cyfaill yn eich helpu i lwyddo.
GEMINI: Amser da i deithio (neu i drefnu taith). Cyfnod gwych i astudio a dysgu a chyflwyno syniadau newydd, ond cymrwch sylw o gyngor pobl eraill.
CANCER: Arian fydd bennaf yn eich meddwl y mis hwn - a dylech gael digon ohono. Cyfnod da i werthu neu i symud tŷ. Cewch adlais ffafriol o'r gorffennol.
LEO: Mis bach cymdeithasol dros ben - ond peidiwch a gorwario. Byddwch yn cyfarfod â chyfeillion newydd dylanwadol. Darllennwch y print man cyn arwyddo unrhyw ddogfen.
VIRGO: Cewch newyddion hapus ar ddechrau'r mis. Cyfnod ffafriol i'r rhai sy'n ceisio am swydd newydd - a chyfnod llewyrchus i eraill yn y gwaith. Bydd eich iechyd ar i fyny.
LIBRA: Cyfnod dedwydd i'r rhai sy'n briod, a rhamantus i'r rhai sy ddim. Dyma'r mis i newid gogwydd eich gyrfa byddai ffurfio partneriaeth yn syniad da. Gwyliwch eich iechyd.
SCORPIO: Daeth hi'n amser i hyrwyddo eich gyrfa. Bydd ymdrechion y gorffennol yn dwyn ffrwyth nawr. Peidiwch â gadael i feirniadaeth eich brifo - bydd eich iechyd yn ardderchog.
SAGITTARIUS: Daw syniadau sut i newid eich byd atoch fel bollt o'r awyr. Dyma'r amser i fod yn fwy annibynnol a rhydd. Byddwch yn teithio cryn dipyn, dros y mor efallai, neu'n trefnu taith.
CAPRICORN: Bydd eich sefyllfa ariannol ar i fyny - yn enwedig mewn byd busnes - ond gwyliwch rhag cael eich twyllo. Cyfnod da i werthu byddwch yn treulio mwy o amser yn, neu ar, y cartref.
AQUARIUS: Cyfnod ardderchog i gyflwyno eich syniadau i eraill, ac i ddatrys eich problemau. Byddwch yn gymdeithasol - thal i ddim i guddio dan eich cragen.
PISCES: Cewch wybodaeth annisgwyl fydd yn datrys llawer o'ch problemau ond cadwch ffrwyn ar eich emosiynau - a pheidiwch da chi a hel clecs.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 49



AR DRAWS:

4. Myg eu byd y rhai sydd yn patrymu eu hunain ar eraill. (8)
8. O newid acen, gellid meddwl mai llusgo trol neu hen aradr oedd hwn. Nid hynny hefyd! (6)
9. Tipyn o gwymp. (7)
10. Diofal a dihidio oedd rhoi tro ar y saga olaf fel ei bod yn colli dim. (8)
11. Cartre'r "Hen Ferchetan". (6)
12. Asiantau wedi dibennu ym miwsig yr eglwys. (8)
13. Ymwelydd yr hiniog? (5,3)
16. Odi croen yn rhoi bonclust? (8)
19. Ffolineb o'r mwyaf yw gwneud cawl yn slo yn y botel. (3,5)
21. Esther at ei hanner yn yr afon! Rhaid ei chael i le clyd. (6)
23. Y gwyddon iaith! Ie, e' ddygith drefn ar ei lythrennau. (8)
24. Mewn hast y trefnwyd y gosb i'r achos. (7)
25. Dibrofiad. (6)
26. Yn groes i'w ewyllys y cafodd dro yn y lôn od fan acw. (8)

I LAWR:

1. Ai y nhw sy'n peri i bethau ddigwydd yn y llysoedd? (7)
2. A dry Reagan o bosib ac ysgwyd y byd? (9)
3. Prif gynnyrch yr Eifl, tan yn ddiweddar. (6)
4. Llawnder anian, fel y byddech yn disgwyl. (2,8,5)
5. Ysgrifennu'r ugeinfed llyfr fel y gwnaeth Solomon .... (8)
6. ....ac ysgrifennu'n afler â'u traed a wna'r ednod. (5)
7. Fel mae gwirionedd yn araf dreiddio i'r meddwl. (7)
14. Un enwog ymhlith adar y nos. (9)
15. Cael asbri newydd o lai o fwyd. (8)
17. Gadewch inni ei gynnig i sefyll lecsiwn. (7)
18. "A marw __ _____ Duw" (Eifion Wyn). (2,5)
20. Hoffi Cymraeg Byw. (6)
22. Mae'n hudo os yw'n cael ei chymhennu. (5)

---

RHIF 49: Anfoned y datryswyr eu hymdrechion erbyn Chwefror 16eg (enw neu ffugenw ar ymy y Croesair) at Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed.


CYSTADLEUAETH RHIF 48:
Mae cythrel y wasg yn gwella. Y cyfan a wnaeth o'i le y tro hwn oedd troi "arddodiad" yn "adroddiad", a gadael allan pob acen grom a'r acen ddyrchafedig ar yr "e" yn "maté". Mae gobaith amdano.
Derbyniwyd naw ymgais ond pump yn unig oedd yn hollol gywir. Syndod oedd gweld camsillafu Hwiangerdd yn Hwyangerdd gan dri o'r ymgeiswyr. O blith y rhai cywir, enw Julia Lloyd, Glan-y-Llyn, Parc y Rhath, a ddaeth o'r het. Hi gaiff y tocyn lyfrau gyda hyn. Daeth y cynigion cywir eraill oddiwrth: B.H., Cyncoed; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; T.Jones, Pentwyn; a G.R.D., Y Rhath.

DATRYSIAD RHIF 48:
Ar draws: 1. Bob Cristion; 8. Ag; 9. Noel; 10. Nos Da; 11. Tawel; 12. CF; 14. Sylw; 16. Y Preseb; 18. Offryma; 19. Dafydd; 20. Hwiangerdd Mair; 21. Yn Lew; 23. Dileaf; 26. Meimiodd; 27. Asio; 29. Te; 30. Mieri; 31. Tuchan; 32. Olaf; 33. Si; 34. Yn y fantolen.

I Lawr: 1. Bancio; 2. Ogof; 3. Codi; 4. Tua Bethlehem Dref; 5. O Deued; 6. Golygyddiaeth; 7. Tlawd; 13. Epa; 15. Draw yn Ninas; 16. Ymladdem; 17. Balmaidd; 22. Wele Yn; 23. Dos; 24. Frenin; 25. Rhagor; 28. Puro.

---

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367



holl lyfrau Cymru ynghanol y dref
Oriel
Siop Lyfrau Cyngor Celfyddydau Cymru, 53 Heol Siarl, Caerdydd Ffôn: 395548
Catalogau ar gael

Ymchwilydd - Rhaglenni Plant

Mae angen Ymchwilydd ar HTV Cymru i weithio ar raglenni plant ac i arbenigo ar raglenni meithrin. Dylai'r ymgeiswyr fod a phrofiad, neu o leiaf diddordeb byw, yn y mathau yma o raglenni, ac yn barod i ymuno a thim bywiog a gweithgar yn sefydlog yng Nghaerdydd.

Cyflog (o dan hyfforddiant) - £6,400 y flwyddyn. (Wedi gorffen hyfforddiant, bydd y cyflog rhwng £9,900 a £12,900 gan gynnwys atodiadau lleol).

Y swydd i gydymffurfio a'r cytundeb rhwng y cwmni ag undeb ACTT.

Dylai ymgeiswyr, mab neu ferch, anfon am ffurflen gais gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig gan nodi cyfeirnod DIN/427 at: Rheolwr Staffio, HTV Cyfyngedig, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF5 6XJ.

YR YDYM YN GYFLOGWYR CYFLE CYFARTAL
HTV

# LLONGYFARCH

GENI: Llongyfarchiadau i Wyn a Heulwen Jones ar enedigaeth merch fach Sioned Angharad.

GENI: Llongyfarchiadau i Stuart a Catherine Owen-Jones ar enedigaeth eu mab Rhodri Morgan, brawd i Rhys ac Eleri.

NEWID SWYDD: Ar ôl saith mlynedd fel dirprwy brifathro Ysgol Glantaf mae Brain James wedi rhoi'r gorau i'w swydd. Dechreuodd ym mis Ionawr fel Prif Swyddog Proffesyddol gyda'r Pwyllgor Datblygu Cwrs Addysg Ysgolion (Pwyllgor Cymru). Ei brif gyfrifoldebau yw'r iaith Gymraeg a phynciau a ddysgir drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Ein dymuniadau gorau iddo yn ei waith newydd a diolch yn fawr am ei gyfnod yn ysgol Glantaf.

PENBLWYDD HAPUS: Can mlynedd yn ôl ar Chwefror 18fed 1885 fe gorfforwyd Minny St yn Eglwys Annibynnol. Trefnir amryw o gyfarfodydd i ddalthlu'r amgylchiad a gwahoddir Cymry'r Ddinas i Gyfarfod Cyhoedus ar y noson nodedig honno sef Nos Lun Chwefror y 18fed. Ceir cyfarchion a Rhaglen Nodwedd wedi'i pharatoi gan y Gweinidog a'i briod, y Parchedig a Mrs Eifion Powell. Croeso cynnes i bawb.

DYWEDDIO: Llongyfarchiadau i Sian Myfanwy, merch Mr. a Mrs. W.A.M. Thomas, Y Waun, ar ei dyweddiad â David Henry o Guernsey.

DYWEDDIAD: Dymuniadau da i Elin, merch y Parch. a Mrs.Eifion Powell, ar ei dyweddiad â William Kaughman, Efrog Newydd, U.D.A.

# CYDYMDEIMLAD

MARWOLAETH: Cydymdeimlwn yn ddwys â Dennis Francis a'r teulu yn eu profedigaeth lem o golli'i fam yn fuan ar ôl y Nadolig. Y mae Dennis hefyd yn perthyn i Janet Ogwen ac Aled Gwyn - meddyliwn amdanynt hwythau hefyd.

COLLEDION Y TABERNACL: Colled fawr i'r eglwys oedd marwolaeth Mrs.Wynne Williams a'r Dr. Gwynfor Lewis. Bu Mrs.Williams yng Nghaerdydd ers blynyddoedd maith ac yn un o ffyddloniaiad yr eglwys a'r côr a fu yno am flynyddoedd lawer. Roedd Dr. Lewis yn ddiacon ers dros ddeng mlynedd. Roedd yn Gymro glan gloyw a'i hiwmor tawel wedi llonni pob cylch y trodd ynddo, gan gynnwys y Cymrodorion, y bu'n llywydd arno, a'r Cylch Cinio Cymraeg.

SHERMAN Arena

Senghennydd Road, Cardiff CF2 4YE

CWMNI DRAMA MADE IN WALES

"STRIKE A LIGHT"
gan Nigel Jenkins
gyda cherddoriaeth gan Peter Stacey

Sioe gerdd Saesneg wedi ei seilio ar fywyd ac oes yr enwog Dr.William Price o Lantrisant. Noson o hwyl i'r teulu cyfan - yn llawn caneuon a rhialtwch!

Yn agor yn Llantrisant yn y "Workingmen's Club" nos Fawrth, 29 Ionawr am 8.00.
Hefyd yn Arena Theatr y Sherman, Caerdydd, 5-9 Chwefror am 8.00.

Ffon: Swydda Docynnau Theatr y Sherman 30541
Pris Tocynnau: £3.30
(gostyngiad i £2.30 heblaw am ddydd Sadwrn)

S T R I K E A L I G H T !

